

Relocation Policy

Last updated: 26 October 2021

Policy owner: Head of Employee Relations and Policy

Summary

The BBC is committed to providing relocation support to mitigate the financial impact on employees where the business requires an employee to relocate as a result of a role or team moving to a new location. Consideration of relocation support for new hires may be appropriate where there exists an agreed critical business need and approved budget. Relocation support costs are incurred by the department in the new location and all relocation requests require approval in line with the BBC agreed approval route. Whilst the circumstances may differ, application of the policy and process will be consistent and fair.

Who this applies to:

All employees in the UK.

Key points of this policy

1. Permanent relocation support for UK employees on a continuing contract
2. General provisions and obligations

Contents

1. Permanent Relocation Support Principles and Eligibility	4
2. Options.....	4
2.1. Option 1: Homeowner Sell and Buy	4
2.2. Option 2: Tenant in Rented Accommodation	5
2.3. Option 3: Deferred Move	6
3. General Provisions and Obligations	7
3.1. Service Provider.....	7
3.2. Location Recce Allowance.....	7
3.3. Rental Loan Deposits	7
3.4. Tax Obligations	8
4. Recovery on leaving the BBC.....	8

1. Permanent Relocation Support Principles and Eligibility

Relocation support is available to employees where:

- there is a business led permanent change of work location. This means the new work location is not within daily commuting distance of your current home. Daily commuting distance is defined as at least one hour drive or 30 mile commute each way.
NB: Acceptable distance maps can be requested for a fee from the BBC's specialist relocation service provider.
- the BBC have made a decision to move a number of roles, team(s), department(s) or functions to another location which puts employees at risk of redundancy. Relocation support will also be available to affected employees where they have secured redeployment to an alternative role in another BBC location as a result of being put at risk of redundancy.
NB: Employees must hold a relocating role ahead of the proposed move announcement. Applicants recruited into a role, with prior knowledge that the role is relocating will not qualify for support.
- By exception where there exists a business critical need to secure appointment to an externally recruited position, the BBC may approve a defined relocation support package on appointment.

Relocation support is not provided if you apply for an advertised role (other than as part of redeployment) or are recruited into a role you hold on attachment at another location.

2. Options

Where Permanent Relocation Support is available, eligible employees are able to choose from one of the three options below. Employees should note that some individual expenses are capped and that there is an overall limit on the total amount that can be claimed. Details of your relocation support will be agreed by your Team manager as supported by a defined budget via an approved business case.

2.1. Option 1: Homeowner Sell and Buy

(Sell the existing and buy the new property)

- Legal and other associated costs of selling and buying a property (e.g. EPC, search fees, valid building society charges, mortgage arrangement and surveyors fees).

NB: The BBC will not meet any mortgage redemption costs unless you are prohibited from transferring the mortgage to the new property by your lender.

- Homebuyers Survey from a RICS qualified surveyor (a Full Building Survey will only be reimbursed where recommended in a Homebuyers Survey).
- Stamp Duty (Stamp Duty Land Tax) up to a maximum value of the equivalent stamp duty payable on the sale price of your existing home.
- Estate Agency Fees up to 1.5% plus VAT of the sale price, providing the fee is agreed on a 'no sale no fee' basis and is inclusive of advertising.
- Removal services
- Temporary accommodation costs (including letting agent fees).
- Return travel costs to the existing family home whilst in temporary accommodation.
- Duplicate costs for gas, electric, water rates, council tax whilst in temporary accommodation. To minimise costs and where relevant, the BBC expect you to apply for any discounts available for sole occupancy e.g. council tax and essential utilities.
- Where you are leaving non moveable household goods as part of a sale e.g. carpets and curtains, a contribution towards replacement at the new location.
NB: This will be payable against receipts and you will be required to demonstrate that these goods are being left as part of the sale of your old home as they are not suitable for use in the new home.
- Tax arising on approved expenses above the £8k tax exemption limit on HMRC qualifying costs (see Section 2: Tax Obligations).

2.2. Option 2: Tenant in Rented Accommodation

(Move from Rented to Rented)

- Removal services
- Travel expenses equal to one journey to complete the move for the family unit. To be reimbursed against receipts or mileage in line with BBC Expenses Policy.
NB: Family Unit is defined as living in the existing property at the time of the move.
- Short term temporary accommodation costs e.g. Hotel/Temporary apartment for the duration of any pre-existing duplicate commitment or 6 months whichever is the soonest.
- Letting agent administration fees, referencing fees and credit check fees.
- Tax arising on approved expenses above the £8k tax exemption limit on HMRC qualifying costs (see Section 2: Tax Obligations).

Only where relocation is as a result of a Group move which would result in a risk of redundancy, the decision to relocate may be deferred for a period of 12 months with the following provisions:

2.3. Option 3: Deferred Move

(Deferred Option provides support for a period of up to 12 Months whilst deciding on a permanent relocation)

Homeowner deferred move enables an existing homeowner, to temporarily retain this property as your family's main residence and retain financial responsibility for your existing home to be eligible. Claims supported by valid receipts will be reimbursed against travel and any duplicate costs for accommodation and utilities subject to tax and National Insurance by the individual and capped at £1300 per month.

During or at the end of the deferred period, should you select to permanently relocate the following support is available which will be capped at the tax free threshold:

- Legal and other associated costs of selling and buying a property (e.g. EPC, search fees, valid building society charges, mortgage arrangement and surveyors fees).
NB: The BBC will not meet any mortgage redemption costs unless you are prohibited from transferring the mortgage to the new property by your lender.
- Homebuyers Survey from a RICS qualified surveyor (a Full Building Survey will only be reimbursed where recommended in a Homebuyers Survey).
- Stamp Duty (Stamp Duty Land Tax) up to a maximum of the stamp duty that is payable by the buyer on the sale price of your existing home (i.e. stamp duty is only recoverable on a like-for-like basis).
- Estate Agency Fees up to 1.5% plus VAT of the sale price, providing the fee is agreed on a 'no sale no fee' basis and is inclusive of advertising.
- Removal services
- Where you are leaving non moveable household goods as part of a sale e.g. carpets and curtains, a contribution towards replacement at the new location.
NB: This will be payable against receipts and you will be required to demonstrate that these goods are being left as part of the sale of your old home as they are not suitable for use in the new home.

Where an employee has a rental contract in place and intends to retain this contract as the main family residence, they will be fully responsible for the ongoing costs at this primary rental property. Claims supported by valid receipts will be reimbursed against travel and any duplicate costs for accommodation and

utilities subject to tax and National Insurance by the individual and capped at £1300 per month.

The deferral period is for a maximum of 12 months.

During or at the end of the deferred period, should you select to permanently relocate the following support in line with rental to rental redeployment is available which will be capped at the tax free threshold:

- Removal services
- Travel expenses equal to one journey to complete the move for the family unit. To be reimbursed against receipts or mileage in line with BBC Expenses Policy. *NB: Family Unit is defined as living in the existing property at the time of the move.*
- Letting agent administration fees, referencing fees and credit check fees.

3. General Provisions and Obligations

3.1. Service Provider

To ensure staff receive specialist support and to enable the BBC to fulfil its tax obligations Relocation Support and Expenses are managed via a specialist relocation supplier. Therefore all relocation expenses **MUST** be claimed via the relocation service provider to ensure the BBC's tax obligations are met.

The BBC's relocation specialist has appointed a panel of suppliers to provide the professional services e.g. removals; legal services etc. However, should you use your own provider for any of the services outlined in this policy; the BBC will cap payment to the appointed panel rate if lower.

3.2. Location Recce Allowance

All employees subject to relocation of role will be entitled to claim a Location Recce Allowance of up to £350 reimbursed against valid receipts for expenses incurred for travel, accommodation and meals in line with BBC Expense policy.

3.3. Rental Loan Deposits

In exceptional cases, where rental requires an upfront deposit payment, support can be requested separately for a loan from the BBC. This will be recovered via BBC payroll in line with an agreed payment plan.

The BBC does not provide bridging loans or support for second home purchases under any circumstances.

3.4. Tax Obligations

In order to qualify for tax relief available on relocation spend, HMRC state the following must apply:

- There must be a change of work location that means the new place of work is not within daily commuting distance of your home.
- You must change your sole or main residence to be within reasonable daily commuting distance of the new work location.
- There must be a significant distance between the old home and the new home.
- The relocation costs must be incurred and reclaimed by the end of the tax year (5th April) following the role move.

Relocation expenses become taxable once cumulatively exceeding the tax exception threshold of £8k, or if expenses are ineligible for tax exemption. The BBC will meet any tax liability which arises on the reimbursement of approved expenses only as outlined in this policy.

In order to satisfy HMRC tax exemption rules, the employee must provide evidence that they have moved their principal residence to the new location. Failure to provide evidence may result in a tax liability to the employee directly. If your spouse or partner is the legal owner of your principal residence this policy will still apply.

4. Recovery on leaving the BBC

If you resign or are dismissed from the BBC within 36 months of the start date of your new role, the BBC will recover all relocation support costs in line with the following scale:

- Up to 12 Months: 100% of the relocation costs.
- 13 to 36 Months: 1/24th of a decreasing scale of the relocation costs for each full month that you remain permanently employed by the BBC (e.g. leave after 18 months = 18/24 leave after 30 months = 6/24)
- Over 36 Months: 0% recoverable.

You will be exempt from recovery of relocation costs in the event of redundancy or are within the 12 month Deferred Option support period.

Polisi Adleoli

Diweddarwyd ddiwethaf: 26 Hydref 2021

Perchennog y polisi: Pennaeth Cysylltiadau a
Pholisiau Gweithwyr

Crynodeb

Mae'r BBC wedi ymrwmo i ddarparu cymorth adleoli er mwyn lliniaru'r effaith ariannol ar weithwyr pan fydd y busnes yn gofyn iddyn nhw adleoli oherwydd bod swydd neu dîm yn symud i leoliad newydd. Mae'n bosibl y bydd yn briodol ystyried cymorth adleoli i weithwyr newydd os oes angen busnes critigol wedi'i gytuno yn ogystal â chyllideb wedi'i chymeradwyo. Mae'r costau cymorth adleoli yn cael eu hysgwyddo gan yr adran yn y lleoliad newydd ac mae angen sêl bendith ar bob cais i adleoli yn unol â'r llwybr cymeradwyo sydd wedi'i gytuno gyda'r BBC. Er bod amgylchiadau'n amrywio, bydd y polisi a'r broses yn cael eu gweithredu mewn modd cyson a theg.

Who this applies to:

Mae hyn yn berthnasol i'r holl weithwyr yn y DU.

Prif Bwyntiau'r polisi hwn

1. Cymorth adleoli parhaol ar gyfer gweithwyr yn y DU ar gontract parhaus
2. Darpariaethau a rhwymedigaethau cyffredinol

Cynnwys

1. Cymorth Adleoli Parhaol Egwyddorion a Chymhwysedd	12
2. Opsynau	12
2.1. Opsiwn 1: Cymorth Prynu a Gwerthu i Berchennog Tŷ	12
2.2. Opsiwn 2: Tenant mewn Llety Rhent	13
2.3. Opsiwn 3: Gohirio Symud	14
3. Darpariaethau a Rhwymedigaethau Cyffredinol	15
3.1. Darparwr Gwasanaeth	15
3.2. Lwfans Chwilio am Leoliad	15
3.3. Benthyciadau ar gyfer Blaendaliadau Rhent	15
3.4. Rhwymedigaethau Treth	16
4. Adfer ar ôl Gadael y BBC	16

1. Cymorth Adleoli Parhaol Egwyddorion a Chymhwysedd

Mae cymorth adleoli ar gael i weithwyr pan fo:

- Newid parhaol i'w man gwaith, a hwnnw'n cael ei arwain gan y busnes. Mae hyn yn golygu nad yw'r man gwaith newydd o fewn pellter cymudo dyddiol i'ch cartref presennol. O leiaf awr o yrru neu 30 milltir pob ffordd yw diffiniad y BBC o bellter cymudo dyddiol.

Dalier Sylw: Gallwch chi wneud cais am fapiau pellter derbyniol am ffi gan ddarparwr gwasanaeth adleoli arbenigol y BBC.

- Mae'r BBC wedi penderfynu symud nifer o swyddi, timau, adrannau neu swyddogaethau i leoliad arall sy'n rhoi gweithwyr mewn perygl o golli eu swydd. Bydd cymorth adleoli hefyd ar gael i weithwyr sydd wedi'u heffeithio os ydyn nhw wedi adleoli i swydd arall mewn lleoliad BBC arall o ganlyniad i berygl o golli eu gwaith.

Dalier Sylw: Rhaid i weithwyr fod â swydd sy'n adleoli cyn i'r symudiad arfaethedig gael ei gyhoeddi. Ni fydd ymgeiswyr a recriwtiwyd i swydd gan wybod bod yn swydd yn adleoli yn gymwys am gymorth.

- Mewn achosion eithriadol lle bo angen busnes critigol i sicrhau penodiad i swydd a gaiff ei recriwtio'n allanol, gall y BBC gymeradwyo pecyn cymorth adleoli diffiniedig ar ôl penodi.

Dydy cymorth adleoli ddim yn cael ei ddarparu os ydych chi'n ymgeisio am swydd sy'n cael ei hysbysebu (oni bai fel rhan o adleoliad) neu yn cael eich recriwtio i swydd rydych chi'n ei dal ar ymlyniad mewn lleoliad arall.

2. Opsiynau

Pan fo Cymorth Adleoli Parhaol ar gael, gall gweithwyr cymwys ddewis o blith un o'r tri opsiwn isod. Dylai gweithwyr nodi bod rhai treuliau unigol wedi'u capio a bod terfyn cyffredinol ar y cyfanswm y gellir ei hawlio. Bydd eich Rheolwr Tîm yn cytuno ar fanylion eich cymorth adleoli, yn unol â chyllideb benodol drwy achos busnes cymeradwy.

2.1. Opsiwn 1: Cymorth Prynu a Gwerthu i Berchennog Tŷ

(Gwerthu'r eiddo presennol a phrynu'r eiddo newydd)

- Costau cyfreithiol a chostau cysylltiedig eraill o ran prynu a gwerthu eiddo (e.e. Tystysgrif Perfformiad Ynni, ffioedd chwilio, ffioedd cymdeithas adeiladu dilys, trefniadau morgais a ffioedd syrfewyr).

Dalier Sylw: Ni fydd y BBC yn talu unrhyw gostau am ad-dalu morgais oni bai bod eich benthyciwr wedi eich gwahardd rhag trosglwyddo'r morgais i'r eiddo newydd.

- Arolwg Prynwr Tŷ gan syrfëwr sydd â chymhwyster RICS (ni fyddwn ni'n talu am Arolwg Adeilad Llawn oni bai bod yr Arolwg Prynu Tŷ yn argymhell hyn).
 - Treth Stamp (Treth dir y dreth stamp) hyd at uchafswm o'r dreth stamp gyfatebol sy'n daladwy ar bris gwerthu eich cartref presennol.
 - Ffioedd Gwerthwyr Tai o hyd at 1.5% a TAW o'r pris gwerthu, cyn belled a bod y ffi yn cael ei chytuno ar sail 'dim gwerthiant, dim ffi' a'i bod yn cynnwys hysbysebion.
 - Gwasanaethau symud
 - Costau llety dros dro (gan gynnwys ffioedd asiant).
 - Costau teithio i fynd yn ôl i gartref presennol y teulu pan fyddwch chi mewn llety dros dro.
 - Costau dyblyg ar gyfer nwy, trydan, biliau dŵr, treth cyngor pan fyddwch chi mewn llety dros dro. Er mwyn lleihau costau a phan fo'n berthnasol, bydd y BBC yn disgwyl i chi wneud cais am unrhyw ostyngiadau sydd ar gael ar gyfer deiliadaeth unigol e.e. treth cyngor a chyfleustodau hanfodol.
 - Pan fyddwch chi'n gadael nwyddau yn eich hen dŷ nad oes modd eu symud fel rhan o'r gwerthiant e.e. carpedi a llenni, bydd cyfraniad tuag at rai newydd yn y lleoliad Newydd.
- Dalier Sylw: Bydd y rhain yn cael eu talu drwy dderbynebau a bydd gofyn i chi ddangos bod y nwyddau hyn yn cael eu gadael fel rhan o werthiant eich hen dŷ gan nad ydyn nhw'n addas ar gyfer y tŷ newydd.*
- Treth sy'n deillio o dreuliau a gymeradwywyd sy'n uwch na'r trothwy eithriad treth o £8k ar gostau cymwys Cyllid a Thollau EM (gweler Adran 2: Rhwymedigaethau Treth).

2.2. Opsiwn 2: Tenant mewn Llety Rhent

(Symud o Lety Rhent i Lety Rhent)

- Gwasanaethau symud
 - Costau teithio ar gyfer un daith i orffen symud yr uned deuluol. Caiff ei ad-dalu yn gyfateb i dderbynebau neu filltiroedd yn unol â Pholisi Treuliau'r BBC.
- Dalier Sylw: Yr unigolion oedd yn byw yn yr eiddo presennol ar adeg y symud yw diffiniad y BBC o Uned Deuluol.*
- Costau llety dros dro am gyfnod byr e.e. Gwesty/Fflat dros gyfnod unrhyw ymrwymiad dyblyg blaenorol neu 6 mis, pa bynnag un sydd fyrraf.
 - Ffioedd gweinyddol asiant gosod eiddo, ffioedd geirdaon a ffioedd ymchwilio i statws credyd.
 - Treth sy'n deillio o dreuliau a gymeradwywyd sy'n uwch na'r trothwy eithriad treth o £8k ar gostau cymwys Cyllid a Thollau EM (gweler Adran 2: Rhwymedigaethau Treth).

Dim ond pan fo'r adleoli o ganlyniad i symud Grŵp a fyddai'n arwain at berygl o golli eich gwaith, mae modd gohirio'r penderfyniad i adleoli am gyfnod o 12 mis gyda'r darpariaethau canlynol:

2.3. Opsiwn 3: Gohirio Symud

(Mae'r Opsiwn i Ohirio yn cynnig cymorth am gyfnod o hyd at 12 mis wrth benderfynu ar adleoli'n barhaol)

Gyda'r opsiwn i ohirio symud, i fod yn gymwys bydd perchennog y tŷ yn cadw'r eiddo hwn dros dro fel prif gartref y teulu ac yn parhau i ysgwyddo cyfrifoldeb ariannol dros y cartref presennol. Bydd hawliadau sydd wedi'u cefnogi gan dderbynebaw dilys yn cael eu had-dalu ar gyfer teithio ac unrhyw gostau dyblyg ar gyfer llety a chyfleustodau sy'n ddarostyngedig i dreth ac YG gan yr unigolyn. Yr uchafswm fydd £1300 y mis.

Yn ystod neu ar ddiwedd y cyfnod gohirio, os byddwch chi'n dewis adleoli'n barhaol bydd y cymorth canlynol ar gael a bydd wedi'i gapio ar y trothwy dim treth:

- Costau cyfreithiol a chostau cysylltiedig eraill o ran prynu a gwerthu eiddo (e.e. Tystysgrif Perfformiad Ynni, ffioedd chwilio, ffioedd cymdeithas adeiladu dilys, trefniadau morgais a ffioedd syrfewyr).
Dalier Sylw: Ni fydd y BBC yn talu unrhyw gostau am ad-dalu morgais oni bai bod eich benthyciwr wedi eich gwahardd rhag trosglwyddo'r morgais i'r eiddo newydd.
- Arolwg Prynwr Tŷ gan syrfewr sydd â chymhwyster RICS (ni fyddwn ni'n talu am Arolwg Adeilad Llawn ddim oni bai bod yr Arolwg Prynu Tŷ yn argymell hyn). Treth Stamp (Treth Dir y Dreth Stamp) hyd at uchafswm y dreth stamp sy'n daladwy gan y prynwr ar bris gwerthu eich cartref presennol (h.y. dim ond ar sail tebyg am debyg y gellir adennill y dreth stamp).
- Ffioedd Gwerthwyr Tai o hyd at 1.5% a TAW o'r pris gwerthu, cyn belled a bod y ffi yn cael ei chytuno ar sail 'dim gwerthiant, dim ffi' a'i bod yn cynnwys hysbysebion.
- Gwasanaethau symud
- Pan fyddwch chi'n gadael nwyddau yn eich hen dŷ nad oes modd eu symud fel rhan o'r gwerthiant e.e. carpedi a llenni, bydd cyfraniad tuag at rai newydd yn y lleoliad newydd.
Dalier Sylw: Bydd y rhain yn cael eu talu drwy gyflwyno derbynebaw a bydd gofyn i chi ddangos bod y nwyddau hyn yn cael eu gadael fel rhan o werthiant eich hen dŷ gan nad ydyn nhw'n addas ar gyfer y tŷ newydd.

Os oes gan weithiwr gontract rhent mewn grym a'i fod yn bwriadu cadw'r contract hwn fel prif breswylfa'r teulu, bydd yn gwbl gyfrifol am gostau parhaus y prif eiddo rhent hwn. Bydd hawliadau sydd wedi'u cefnogi gan dderbynebaw dilys yn cael eu

had-dalu ar gyfer teithio ac unrhyw gostau dyblyg ar gyfer llety a chyfleustodau sy'n ddarostyngedig i dreth ac YG gan yr unigolyn. Yr uchafswm fydd £1300 y mis.

Gellir manteisio ar y cyfnod gohirio am hyd at 12 mis.

Yn ystod neu ar ddiwedd y cyfnod gohirio, os byddwch chi'n dewis adleoli'n barhaol bydd y cymorth canlynol ar gael yn unol â'r cymorth adleoli wrth symud o lety rhent i lety rhent a bydd wedi'i gapio ar y trothwy dim treth:

- Gwasanaethau symud
- Costau teithio ar gyfer un daith i orffen symud yr uned deuluol. Caiff ei ad-dalu yn gyfateb i dderbynebaw neu filltiroedd yn unol â Pholisi Treuliau'r BBC.
Dalier Sylw: Yr unigolion oedd yn byw yn yr eiddo presennol ar adeg y symud yw diffiniad y BBC o Uned Deuluol.
- Ffioedd gweinyddol asiant gosod eiddo, ffioedd geirdaon a ffioedd ymchwilio i statws credyd.

3. Darpariaethau a Rhwymedigaethau Cyffredinol

3.1. Darparwr Gwasanaeth

Er mwyn sicrhau bod staff yn derbyn cymorth arbenigol ac er mwyn i'r BBC allu gwireddu ei rhwymedigaethau treth, caiff Costau a Chymorth Adleoli eu rheoli gan gyflenwr adleoli arbenigol. Felly, RHAID i unrhyw gostau adleoli gael eu hawlio gan y darparwr gwasanaeth adleoli i sicrhau fod rhwymedigaethau treth y BBC yn cael eu diwallu.

Mae arbenigwr adleoli'r BBC wedi penodi panel o gyflenwyr i ddarparu'r gwasanaethau proffesiynol e.e. gwasanaethau symud; gwasanaethau cyfreithiol ac ati. Ond, os byddwch chi'n defnyddio eich darparwr eich hun ar gyfer unrhyw wasanaeth a amlinellir yn y polisi hwn; bydd y BBC yn capio'r taliad i gyfradd y panel penodedig os yw'n is.

3.2. Lwfans Chwilio am Leoliad

Bydd hawl gan bob gweithiwr y mae eu swydd yn cael ei symud i wneud cais am Lwfans Chwilio am Leoliad o hyd at £350 a fydd yn cael ei ad-dalu am dderbynebaw dilys am gostau teithio, llety a phrydau yn unol â pholisi treuliau'r BBC.

3.3. Benthyciadau ar gyfer Blaendaliadau Rhent

Mewn achosion eithriadol, pan fo'r llety rhent yn gofyn am flaendal, gellir gwneud cais am fenthyciad ar wahân gan y BBC. Bydd y benthyciad yn cael ei adfer drwy gyflogres y BBC yn unol â chynllun talu y cytunir arno.

Nid yw'r BBC yn darparu benthyciadau pontio na chymorth i brynu ail gartref o dan unrhyw amgylchiadau.

3.4. Rhwymedigaethau Treth

Er mwyn bod yn gymwys am y rhyddhad treth sydd ar gael ar wariant adleoli, mae CThEM yn nodi bod yn rhaid i'r canlynol fod yn wir:

- Rhaid bod newid o ran man gwaith sy'n golygu bod y man gwaith newydd ddim o fewn pellter cymudo dyddiol o'ch cartref.
- Rhaid i chi newid eich unig neu brif gartref er mwyn bod o fewn pellter cymudo dyddiol rhesymol o'ch man gwaith newydd.
- Rhaid bod pellter sylweddol rhwng eich hen gartref a'ch cartref newydd.
- Rhaid i'r costau adleoli gael eu hysgwyddo a'u hawlio cyn diwedd y flwyddyn dreth (5 Ebrill) ar ôl adleoli'r swydd.

Mae costau adleoli yn drethadwy ar ôl iddyn nhw groesi'r trothwy eithriad treth o £8,000, neu os yw'r costau'n annilys ar gyfer eithriad treth. Bydd y BBC yn talu unrhyw rwymedigaeth o ran treth sy'n codi o ad-dalu costau sydd wedi'u cymeradwyo, ond dim ond fel yr amlinellir yn y polisi hwn.

Er mwyn bodloni rheolau eithriadau treth CThEM, rhaid i'r gweithiwr ddarparu tystiolaeth ei fod wedi symud o'i brif gartref i'r lleoliad newydd. Os na fyddwch chi'n darparu tystiolaeth gallai arwain at rwymedigaeth treth uniongyrchol arnoch. Os mai eich priod neu bartner yw perchennog cyfreithiol eich prif gartref bydd y polisi hwn dal yn berthnasol.

4. Adfer ar ôl Gadael y BBC

Os byddwch chi'n ymddiswyddo neu'n cael eich diswyddo gan y BBC o fewn 36 mis o ddyddiad cychwyn eich swydd newydd, bydd y BBC yn adfer yr holl gostau cymorth adleoli yn unol â'r raddfa ganlynol:

- Hyd at 12 mis: 100% o'r costau adleoli.
- 13 i 36 mis: 1/24 ar raddfa ostyngol y costau adleoli ar gyfer pob mis rydych chi'n parhau wedi'ch cyflogi'n barhaol gan y BBC (e.e. Gadael ar ôl 18 mis = 18/24 gadael ar ôl 30 mis = 6/24).
- Dros 36 Mis: 0% yn adferadwy.

Os byddwch chi'n colli eich gwaith neu os ydych chi yn y cyfnod cymorth Opsiwn Gohirio 12 mis byddwch chi'n cael eich eithrio rhag adferiad costau adleoli.